GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Adroddiad y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau Iechyd Cyhoeddus Cymru 2025

Adroddiad y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau 2025

Cynnwys

Cyflwyniad 2

Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru 3

Cynnydd a Gweithgareddau 4

1. Cefnogi staff i leihau eu heffaith amgylcheddol a chymryd camau gweithredu dros fioamrywiaeth ... 4
2. Dangos ein hymrwymiad o fewn cynllunio, polisi a darparu gwasanaethau 6
3. Gweithio gyda phartneriaid a nodi cyfleoedd i gefnogi bioamrywiaeth 9

Y Camau Nesaf 10

Atodiadau 11

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r gwaith a wnaed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) i gefnogi bioamrywiaeth dros y tair blynedd diwethaf. Mae Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau' gan sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hystyried mewn cynllunio busnes, polisïau, cynlluniau a phrosiectau. Mae'n ofynnol i awdurdodau adrodd ar gynnydd bob tair blynedd. Mae ICC wedi cyhoeddi adroddiadau yn 2019 a 2022, ac mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaed rhwng 2023 a 2025.

Mae Cymru'n adnabyddus am harddwch ei thirweddau, y cysylltiad dwfn sydd gan bobl â'r tir a'r traddodiadau diwylliannol sydd wedi'u llunio gan ein cysylltiad â natur. Fodd bynnag, gwelwyd newid brawychus a chyflym mewn bioamrywiaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Tynnodd yr Adroddiad Cyflwr Natur a gyhoeddwyd yn 2023 sylw at golled a dirywiad eang cynefinoedd ledled Cymru ers 1970. Mae bywyd gwyllt Cymru yn dirywio gydag un o bob chwe rhywogaeth mewn perygl o ddiflannu.

Mae hyn yn newyddion drwg i iechyd a llesiant ein cymunedau yng Nghymru. Mae ansawdd ein bywyd a'n bodolaeth yn dibynnu ar natur. Rydym angen rhwydwaith cyfoethog o blanhigion, pryfed ac anifeiliaid i greu amgylchedd iach a all gynnal ein systemau bwyd, cynnal ansawdd ein haer a'n dŵr a'n helpu i addasu i newid hinsawdd drwy ein hamddiffyn rhag llifogydd a dal carbon. Mae'r byd naturiol yn rhoi'r cynhwysion inni ar gyfer llawer o'n cyffuriau a'n triniaethau a ddefnyddiwn i drin nifer o afiechydon ac anhwylderau. Mae ein hiechyd meddyliol a chorfforol, ein hunaniaeth a'n diwylliant hefyd wedi'u cysylltu'n ddwfn â'r byd naturiol. Fodd bynnag, nid oes gan bobl fynediad cyfartal at natur gyda'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn fwy tebygol o gael llai o fynediad at fannau gwyrdd.

Mae ICC yn un o'r 11 sefydliad sy'n ffurfio GIG Cymru. Ni yw'r sefydliad iechyd y cyhoedd cenedlaethol gyda 2,400 o staff wedi'u lleoli mewn 62 o safleoedd ledled Cymru. Rydym yn gweithio i amddiffyn a gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl Cymru. Mae ICC yn gorff cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LlCD) ac mae 'Mynd i'r Afael ag Effeithiau Newid Hinsawdd ar Iechyd y Cyhoedd' yn un o'i flaenoriaethau strategol.

Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth cyntaf Iechyd Cyhoeddus Cymru, 'Gwneud Lle i Natur', yn 2019 gyda phum maes allweddol ar gyfer gweithredu. Cafodd pandemig COVID-19 effaith sylweddol ar ein gallu i gyflawni'r ymrwymiadau, fodd bynnag, gwnaed cynnydd mewn sawl maes gyda'r dysgu wedi'i sianelu i greu cynllun wedi'i ddiweddaru.

Yn ystod 2024, buom yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws y sefydliad ac yn allanol i ddatblygu cynllun bioamrywiaeth newydd ar gyfer 2024-27. Roedd hyn yn cynnwys nifer o gyfarfodydd, ymgynghoriadau a gweithdy wyneb yn wyneb hefyd.

Gan dynnu ysbrydoliaeth o'r gwaith ymgysylltu a gynhaliwyd yn ystod y Sgwrs Genedlaethol Natur a Ni dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn 2023, gwahoddwyd cydweithwyr i weithdy wyneb yn wyneb i archwilio pwysigrwydd natur i iechyd a rôl ICC wrth eiriol dros natur. Defnyddiwyd yr adborth gan gydweithwyr i ddatblygu amcanion y cynllun.

Dyma rai meddyliau gan gyfranogwyr ar yr hyn y mae natur yn ei olygu iddyn nhw…

Mae gan ein Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, Hyrwyddo Byd Natur er Budd Dyfodol Iach, dri amcan –

1. Cefnogi staff i leihau eu heffaith amgylcheddol a chymryd camau gweithredu dros fioamrywiaeth
2. Dangos ein hymrwymiad o fewn cynllunio, polisi a darparu gwasanaethau
3. Gweithio gyda phartneriaid a nodi cyfleoedd i gyfrannu at waith ehangach i gefnogi a gwella bioamrywiaeth

Yn 2027, byddai ICC sydd wedi ymrwymo i fioamrywiaeth yn un lle –

- ✓ Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu hysbrydoli i gymryd camau gweithredu i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd a hybu bioamrywiaeth, fel unigolion ac fel timau
- ✓ Cydnabyddir bod treulio amser mewn natur yn fuddiol i iechyd a llesiant staff, ac mae cyfleoedd i hyn ddigwydd yn rheolaidd.
- ✓ Mae mynediad at fannau gwyrdd a glas bioamrywiol yn cael ei hyrwyddo a'i gynnwys mewn rhaglenni sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.
- ✓ Rydym yn rhannu arferion da â'r sector gofal iechyd ehangach yng Nghymru ac yn helpu i gefnogi a chryfhau rhwydweithiau cenedlaethol gan ganolbwyntio ar fioamrywiaeth ac iechyd.

Cynnydd a Gweithgareddau

Defnyddiwyd amcanion y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth cyfredol i strwythuro'r adran hon o'r adroddiad.

1. Cefnogi staff i leihau eu heffaith amgylcheddol a chymryd camau gweithredu dros fioamrywiaeth

Rydym yn gweithio i helpu staff i ddeall pwysigrwydd bioamrywiaeth i iechyd y cyhoedd ac i gymryd camau i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd.

Prif weithgareddau

- Drwy'r Rhwydwaith Eiriolwyr Gwyrdd (rhwydwaith cynaliadwyedd ICC ar gyfer staff) rydym wedi trefnu nifer o sesiynau wyneb yn wyneb ac ar-lein i alluogi staff i ddysgu mwy am natur a'r cysylltiad â'n hiechyd corfforol a meddyliol. Mae'r rhain wedi cynnwys gweithdy ar arddio bywyd gwyllt a thaith i Daith Gerdded Iechyd Dôl Mynydd Bychan yng Nghaerdydd. Cawsom sesiwn arbennig ar y cyd hefyd gyda rhwydwaith y Gymraeg ICC lle gwnaethom archwilio'r cysylltiad rhwng yr iaith Gymraeg a'n cysylltiad â natur a thirwedd.

  Ar ddiwedd 2024 cynhaliwyd adolygiad o'r Rhwydwaith Eiriolwyr Gwyrdd a chasglwyd adborth gan aelodau. Mae'r ffeithlun isod yn dangos hyn ynghyd â chrynodeb o weithgareddau'r llynedd –

- Mae gweithgareddau sy'n gysylltiedig â natur wedi cael eu rhannu gyda chydweithwyr i annog cyfranogiad. Cafodd dau weithgaredd eu cynnwys yn ein Calendr Cynaliadwyedd 2024 yn annog staff i gymryd rhan ym mis 'Mai Di-Dor' ac i ystyried ffyrdd o roi cartref i natur yn eu gerddi. Rhannwyd camau gweithredu a gymerwyd gan gydweithwyr yn ystod Wythnos Natur Cymru drwy sgwrs a sianel Teams yr Eiriolwyr Gwyrdd.

  Isod mae enghraifft o ran o stori staff a rannwyd ar dudalennau Mewnrwyd yr Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd –

Thema'r mis hwn yw 'Rhowch gartref i fyd natur'. Mae gennym 5 enghraifft isod o gydweithwyr sydd eisoes wedi gwneud hyn a delweddau o'u gofodau gartref y maent yn teimlo eu bod yn 'rhoi cartref i fyd natur'.

- **Mae cydweithwyr wedi cael cymorth i ddewis opsiynau teithio mwy cynaliadwy drwy ystod o weithgareddau a chyfathrebiadau fel rhan o'n ffocws ar deithio llesol.** Cofrestrodd 27 o gydweithwyr ar gyfer hyfforddiant beicio sylfaenol a hyfforddiant cynnal a chadw beiciau a ddarparwyd gan Sustrans ac mae 10 wedi manteisio ar y cynnig o fenthyciad beic. Rydym hefyd yn cynnig Cynllun Beicio i'r Gwaith lle mae ICC yn talu cost lawn beic ac mae staff yn ei ad-dalu'n raddol trwy eu cyflog. Mae ICC a Gweithrediaeth GIG Cymru wedi sefydlu Grŵp Defnyddwyr Beiciau ar gyfer staff sydd â diddordeb mewn beicio yn ôl a ymlaen i'r gwaith ac i gynllunio reidiau cymdeithasol ar gyfer staff.

Lansiwyd **Her Cyfarfodydd Gwyrddach** y llynedd i annog timau i wneud dewisiadau cynaliadwy wrth gynllunio cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Roedd hyn yn cynnwys chwilio am leoliadau gyda mynediad at fannau gwyrdd i ganiatáu i seibiannau gael eu cymryd yn yr awyr agored mewn natur.

Rhannodd yr Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd eu 'diwrnod i ffwrdd cynaliadwy' i'r Amwythig gyda chydweithwyr gan dynnu sylw at y daith gerdded natur a ddewiswyd ganddynt o'r orsaf drenau i'r lleoliad a'r ardd bywyd gwyllt lle cawsant ginio.

- **Mae'r Gyfarwyddiaeth Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (QNAHPs) yn trefnu teithiau cerdded natur ddwywaith y flwyddyn** i staff, gan fanteisio ar lwybrau lleol i wella iechyd a llesiant corfforol.

Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol gyda staff yn nodi bod eu hwyliau wedi gwella a'u bod wedi mwynhau gwneud ychydig oriau o weithgarwch wrth archwilio rhan newydd o Gymru.

Mae'r Pecyn Cymorth Gweithdy Amgylchedd Iach yn cefnogi timau i wneud newidiadau cynaliadwy yn eu bywydau cartref a gwaith. Bioamrywiaeth yw un o'r tair thema allweddol, ac mae'r pecyn cymorth yn cynnwys gwybodaeth am yr argyfwng natur, y cysylltiadau ag iechyd a llesiant a sut y gallwn gefnogi adferiad byd natur. Mae 80 o staff o 22 tîm wedi cymryd rhan mewn gweithdai ers 2023 ac mae 11 cynllun gweithredu wedi'u creu gyda chamau gweithredu yn cynnwys cymryd rhan yn y Penwythnos Gwylio Adar yr Ardd, ac ym mis Mai Di-Dor a gosod pyllau a chartrefi ar gyfer natur. Mae crynodeb o'r camau gweithredu a'r ymgysylltiad i'w weld isod –

2. Dangos ein hymrwymiad o fewn cynllunio, polisi a darparu gwasanaethau

Rydym yn gweithio i sicrhau bod bioamrywiaeth yn flaenoriaeth wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau strategol ac yn cael ei hyrwyddo o fewn darpariaeth gwasanaethau priodol.

Prif weithgareddau

- Mae ICC wedi ymrwymo i 'Fynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd ar iechyd y cyhoedd' fel blaenoriaeth strategol ac wedi sefydlu Bwrdd Rhaglen Newid Hinsawdd Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n goruchwylio ein dull sefydliadol o ymdrin â newid hinsawdd. Mae ein gwaith ar fioamrywiaeth yn rhan o fap llwybr Newid Hinsawdd ac rydym wedi tynnu sylw at gyfleoedd i natur o fewn mapiau llwybrau blaenoriaeth strategol eraill. Mae'r gwaith hwn hefyd yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r saith nod Llesiant, yn enwedig 'Cymru gydnerth'. Rydym yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio drwy gamau gweithredu ein Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth.

- Mae ail Gynllun Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd (2024-26) wedi'i gyhoeddi sy'n amlinellu'r ymrwymiadau rydym yn eu gwneud i leihau ein hallyriadau carbon ar draws ein hadeiladau, trafnidiaeth a chaffael. Mae camau gweithredu y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a'r adroddiad Adran 6 wedi'u hintegreiddio i'r cynllun. Rydym hefyd wedi cyhoeddi Polisi Teithio Busnes newydd ym mis Mehefin 2024. Gellir gweld y cynnydd a wnaed ar y tudalennau Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd ar wefan ICC.

- **Fel rhan o waith ICC yn cefnogi presgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru, mae'r Adran Gofal Sylfaenol wedi casglu nifer o** astudiaethau achos gan gynnwys un sy'n canolbwyntio ar bresgripsiynu gwyrdd. Mae'r astudiaeth achos hon yn disgrifio'r broses atgyfeirio a'r effeithiau ar iechyd a llesiant pobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored. Gellir dod o hyd i'r astudiaeth achos yn yr Atodiad.

- Mae Fframwaith a Chynllun Gwobrau Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru yn cefnogi contractwyr gofal sylfaenol i wella eu cynaliadwyedd a'u heffaith amgylcheddol. Mae hyn yn cynnwys meddygfeydd teulu, fferyllfeydd cymunedol, meddygfeydd optometreg cymunedol a meddygfeydd deintyddol. Mae nifer o wahanol gamau gweithredu y gall timau ddewis ohonynt gan gynnwys rheoli ardaloedd awyr agored i'w rheoli ar gyfer bioamrywiaeth a chefnogi manteision mannau gwyrdd i iechyd a llesiant. Mae yna hefyd gam arall y gall meddygfeydd teulu ei ddewis ynglŷn ag atgyfeirio cleifion at bresgripsiynwyr cymdeithasol. Lansiwyd y cynllun yn 2022, ac ers hynny mae 548 o bractisiau wedi cofrestru i gefnogi 4,265 o gamau gweithredu sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd.

  Ers dechrau 2025, mae 20 tîm wedi dewis y cam gweithredu bioamrywiaeth a 6 thîm y cam gweithredu presgripsiynu cymdeithasol. Mae'r astudiaeth achos yn yr atodiad yn manylu ar brosiect a gynhaliwyd gan bractis deintyddol i wella eu gofod awyr agored ar gyfer bywyd gwyllt lleol a'r manteision i staff a'r gymuned leol.

- **Mae Hapus yn rhaglen sy'n anelu at ysbrydoli pobl yng Nghymru i gymryd camau i amddiffyn a gwella eu llesiant meddyliol.** Mae natur yn un o wyth piler llesiant y rhaglen. Mae'r wefan yn cynnwys straeon gan bobl yn rhannu'r hyn maen nhw'n ei wneud i gefnogi eu llesiant meddyliol eu hunain gyda nifer yn canolbwyntio ar bwysigrwydd treulio amser mewn natur. Mae yna hefyd offer yn yr adran adnoddau i ysbrydoli a chyfeirio pobl, ac mae nifer ohonynt yn gysylltiedig â manteision mannau gwyrdd a gweithgareddau awyr agored (gweler delwedd y wefan isod).



Mae Hapus yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o lesiant meddwl, a'i hyrwyddo. Mae pwysigrwydd natur yn amlwg yn yr wybodaeth gefndirol a'r fframwaith cysyniadol. Mae'r rhaglen wedi sefydlu rhwydwaith Cefnogwyr Hapus sy'n cysylltu sefydliadau cadwraeth, grwpiau cymunedol a chyrff cyhoeddus ac yn darparu lle i rannu arferion da a dysgu rhwng sectorau.

Mae Hapus hefyd yn gweithio ochr yn ochr â Natur Am Byth, rhaglen treftadaeth naturiol ac allgymorth fwyaf Cymru sy'n anelu at achub rhywogaethau rhag difodiant ac ailgysylltu pobl â natur.

- Nod **y fenter Dull Ysgol Gyfan Bywiog Bob Dydd o ran Gweithgarwch Corfforo**l, partneriaeth rhwng ICC, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru, yw cefnogi lefelau uwch o weithgarwch corfforol mewn ysgolion yng Nghymru. Mae Offeryn Asesu Manwl ar gyfer Gweithgarwch Corfforol wedi'i gynhyrchu a bydd yn cael ei lansio ddechrau 2026 i alluogi ysgolion i hunanasesu ar draws ystod o ddangosyddion. Yna byddant yn gallu cael mynediad at ganllawiau ac adnoddau (i'w datblygu) i'w cefnogi i gymryd camau i wella'r gweithgarwch corfforol a gynigir ganddynt. Bydd hyn yn cynnwys hyrwyddo defnyddio mannau naturiol ar gyfer gwersi bywiog a dysgu yn yr awyr agored.

- **Cyhoeddodd Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU) ICC** Asesiad o Effaith Newid Hinsawdd ar Iechyd yng Nghymru (2023) cynhwysfawr yn tynnu sylw at effeithiau newid hinsawdd ar iechyd a llesiant. Mae'r adroddiad cryno yn disgrifio sut y bydd ecosystemau'n cael eu heffeithio gan gynnwys bioamrywiaeth, cyflenwad dŵr ac ansawdd pridd gan achosi nid yn unig effeithiau ffisegol uniongyrchol, ond hefyd effeithiau cymdeithasol, economaidd ac iechyd meddwl ehangach. Mae hefyd yn trafod nifer o gyfleoedd ymarferol ar gyfer iechyd sy'n deillio o newid hinsawdd a'i liniaru gan gynnwys atebion sy'n seiliedig ar natur. Mae'r adroddiad yn cynnwys ffeithlun ar fanteision iechyd natur a'r camau y gallwn eu cymryd i hyrwyddo bioamrywiaeth (wedi'u rhestru yn yr Atodiad).



Mae WHIASU yn cefnogi Llywodraeth Cymru i weithredu'r rheoliadau a bydd yn darparu cefnogaeth i gyrff cyhoeddus i gaffael y sgiliau i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (HIA). Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Llywodraeth Cymru wneud rheoliadau sy'n nodi pryd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru gynnal HIA, a thrwy hynny wneud HIA yn ofyniad statudol mewn rhai sefyllfaoedd. Mae'r asesiad yn cynnwys effaith cynigion ar benderfynyddion amgylcheddol iechyd, fel bioamrywiaeth, yn unol â'r rheoliadau newydd.

Mae WHIASU hefyd yn cynhyrchu dogfen o'r enw 'Cynllunio Mannau Iach' i swyddogion cynllunio awdurdodau lleol gyfeirio ati wrth iddynt ddatblygu cynlluniau datblygu lleol. Mae'n cynnwys tystiolaeth sy'n dangos y cysylltiadau rhwng cynllunio a dylunio'r amgylchedd naturiol ac adeiledig ac iechyd ac mae'n cynnwys pwysigrwydd mannau gwyrdd a bioamrywiaeth i iechyd a llesiant.

- **'Cyhoeddwyd** Y Dechrau Gorau mewn Bywyd: Fframwaith Gweithredu'r Blynyddoedd Cynnar**' ym mis Gorffennaf 2025 ac mae'n cynnwys mynediad at natur** ymhlith cydrannau allweddol system sy'n rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn. Mae'n nodi y dylai teuluoedd gael mynediad cyfartal at fannau gwyrdd a glas o safon lle mae gan blant y rhyddid i chwarae ac y dylai plant allu profi natur. Ar hyn o bryd mae ICC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gytuno ar ddull gweithredu sy'n cyd-fynd â'u blaenoriaethau a'u huchelgais.

- **Mae'r 'Safonau Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion sy'n Hyrwyddo Iechyd a Llesiant yng Nghymru' i fod i gael eu cyhoeddi eleni a byddant yn cynnwys safonau sy'n ymwneud ag amgylchedd yr ysgol.** Mae'r adran hon yn tynnu sylw at bwysigrwydd mynediad rheolaidd i fannau naturiol ac yn argymell bod ysgolion yn darparu cyfleoedd i dreulio amser yn yr awyr agored er budd iechyd, llesiant a dysgu. Mae canllawiau pellach ar y maes cydran graidd hwn hefyd yn cael eu datblygu.

3. Gweithio gyda phartneriaid a nodi cyfleoedd i gefnogi bioamrywiaeth

Ein nod yw eiriol dros fioamrywiaeth, rhannu arfer da gyda rhanddeiliaid a chefnogi rhwydweithiau perthnasol.

Prif weithgareddau

Mae ICC wedi chwarae rhan weithredol o fewn rhwydweithiau a digwyddiadau sydd â'r nod o rannu arfer da a chefnogi'r alwad ledled Cymru i atal dirywiad bioamrywiaeth a chefnogi ecosystemau iach.

- Cynhaliwyd **digwyddiad** Natur a Ni **Cyfoeth Naturiol Cymru** ar Ddiwrnod Amgylchedd y Byd yn 2024 yn y Senedd. Dangosodd ICC nifer o fentrau cynaliadwyedd a chynlluniau a rennir ar gyfer y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth newydd. Gofynnwyd i'r mynychwyr am eu barn ar bwysigrwydd natur i iechyd a'r rôl y dylai ICC ei chwarae wrth gefnogi bioamrywiaeth.

- **Mae ICC yn aelodau o Weithgor Adran 6 Llywodraeth Cymru** sy'n dwyn ynghyd gyrff cyhoeddus yng Nghymru sydd â dyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae diweddariadau ar waith bioamrywiaeth ICC yn cael eu rhannu â sefydliadau eraill drwy'r rhwydwaith, ynghyd ag enghreifftiau o arferion da ac astudiaethau achos.

- **Mae ICC yn rhan o grŵp Gorchwyl a Gorffen Addysg Hinsawdd Glyfar Llywodraeth Cymru** sy'n dwyn ynghyd gynrychiolwyr o Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau yng Nghymru i hyrwyddo addysg hinsawdd-ddeallus ar draws y sector iechyd yng Nghymru. Mae'r grŵp yn canolbwyntio ar fapio mentrau presennol, nodi bylchau a chyfleoedd, a datblygu cynnig craidd ar gyfer addysg hinsawdd sy'n cwmpasu addasu, datgarboneiddio a hefyd yr argyfwng natur.

- **Mae nifer o dimau yn ICC yn gweithio'n agos gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (CCD)** i gefnogi gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a strategaeth Cymru Can y Comisiynydd. Cytunwyd ar bartneriaeth pum mlynedd rhwng ICC a'r CCD yn 2024 i amlinellu ein cydweithrediad. Mae 'rhwydwaith sefydliadau cymorth' wedi'i sefydlu ar gyfer cenhadaeth Hinsawdd a Natur i ddod â'n dau sefydliad ynghyd â Chyfoeth Naturiol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Llywodraeth Cymru i annog cyfleoedd cydweithredol. Hefyd, darparodd ICC dystiolaeth ar gyfer Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2025, gyda 10 argymhelliad i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus gefnogi cenhadaeth Hinsawdd a Natur.

- **Mynychodd ICC Wobrau a Chynadleddau Cynaliadwyedd GIG Cymru 2024 a 2025 hefyd.** Yn 2024, cyflwynodd cydweithiwr waith ICC ar yr argyfyngau hinsawdd a natur ac enillodd Fframwaith a Chynllun Gwobrau Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru y categori gwobr 'Cymru Iachach'. Roedd gan yr Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd dri phrosiect ar y rhestr fer ar gyfer gwobrau yn 2024 hefyd: 'Effaith pandemig COVID-19 a'r symudiad i weithio'n fwy ystwyth ar ôl troed carbon Iechyd Cyhoeddus Cymru', 'Mynd i'r Afael â Phlastig a Gwastraff Untro yn labordai Microbioleg Iechyd Cyhoeddus Cymru' a 'Chreu Cymuned o Hyrwyddwyr Gwyrdd' yn 2024. Cafodd prosiect ar y cyd â Microbioleg 'Lleihau plastig a gwastraff untro o'n labordai' a'n cynllun gweithredu Bioamrywiaeth eu rhoi ar restr fer ar gyfer gwobrau yn 2025.

- **Cyhoeddwyd fwletin gan Rwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru yn canolbwyntio ar Fannau Gwyrdd a Glas ar gyfer Llesiant Corfforol a Meddyliol.** Dangosodd nifer o fentrau o bob cwr o Gymru gan gynnwys gwaith presgripsiynau natur yr RSPB, Rhaglen Hapus, Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ICC a nifer o brosiectau gweithgareddau awyr agored.

  Fel dilyniant i hyn, cynhaliwyd digwyddiad ar-lein yn hydref 2025 i archwilio rôl bioamrywiaeth wrth greu dyfodol iach a chynaliadwy. Drwy waith cydweithredol a phartneriaeth rydym yn gobeithio codi proffil bioamrywiaeth fel un o elfennau hanfodol dyfodol iach a chynaliadwy a rhannu prosiectau a mentrau ysbrydoledig.



Y Camau Nesaf

Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth 2024-27 yn nodi llwybr i ICC wneud cynnydd yn ei waith o amgylch bioamrywiaeth dros y tair blynedd nesaf. Bydd adroddiadau hanner blwyddyn a monitro rheolaidd yn sicrhau bod cyflawniadau'n cael eu cofnodi a bod dysgu'n cael ei ddefnyddio i ddiwygio a llunio'r camau gweithredu lle bo angen.

Cynhelir adolygiad llawn yn 2027 cyn datblygu'r cynllun nesaf y disgwylir ei gyhoeddi ddiwedd 2027.

Atodiadau

1. Astudiaeth Achos Presgripsiynu Cymdeithasol

Presgripsiwn Cymdeithasol: Dyma stori am bresgripsiwn gwyrdd

Mae'r astudiaeth achos hon yn seiliedig ar adborth gan Reolwr Prosiect Awyr Agored. Maent yn gweithio gyda darparwyr awyr agored lleol yng Ngwynedd i'w helpu i greu rhaglenni llesiant. Yn yr astudiaeth achos hon, rydym yn darganfod sut maent yn cynnig cymorth i bobl a sefydliadau trwy bresgripsiwn cymdeithasol gwyrdd.

Rhesymau dros atgyfeirio

Mae anghenion pobl yn amrywio, er bod y rhan fwyaf yn cael eu hatgyfeirio am gymorth gyda phryderon iechyd meddwl, profedigaeth ac arwahanrwydd cymdeithasol.

Llwybr presgripsiwn cymdeithasol

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn hunangyfeirio. Caiff rhai eu hatgyfeirio gan wasanaethau'r GIG, mudiadau cymorth lleol, rhwydwaith Iechyd Gwyrdd Cymru, a thrwy broffesiynwyr iechyd ar rwydwaith awyr agored y sefydliad ei hun.

"I bobl o'r uned seicosis, mae eu hymarferydd yn gwybod amdanom ni. Felly, mae hi'n eu hatgyfeirio a'u cofrestru, achos mae yna lawer o bobl nad ydyn nhw eisiau siarad ar y ffôn, ac wedyn mae hi'n dod â nhw draw. Dull arall yw bod rhywun wedi cysylltu â'r Groes Goch, ac maen nhw'n meddwl y bydd ein rhaglenni o fudd; maen nhw wedyn yn eu cyfeirio atom ni. Mae gennych chi hefyd y person cyffredin ar y stryd sy'n gweld poster ac yn meddwl, 'Dwi angen ychydig o gymorth gyda llesiant', yna maen nhw'n llenwi'r ffurflen gofrestru ac yn dod draw"

Mae pobl yn dod i wybod am y rhaglenni llesiant trwy gyfryngau cymdeithasol neu trwy fudiadau yn y sector gwirfoddol. Ar ôl atgyfeirio, maen nhw'n cwblhau ffurflen gofrestru sy'n dogfennu galluoedd corfforol a llesiant meddyliol.

Gwneir atgyfeiriadau yn haws trwy gydweithredu cryf rhwng y prosiect a'r sefydliadau atgyfeirio. Mae cynnig darpariaeth gyson o ansawdd uchel yn helpu mudiadau i deimlo'n hyderus y bydd pobl yn elwa o fynychu'r rhaglenni llesiant. Mae anogaeth ysgafn yn allweddol i helpu pobl i gael cymorth. Mae sicrhau bod y cymorth sydd ar gael yn addas i'r rhai sy'n ei ddefnyddio hefyd yn bwysig wrth feithrin eu hymgysylltiad.

"Dim pwysau ac maen nhw'n fwy parod i dderbyn. Mae gen i ferch sydd eisiau ymuno â'n cwrs byw yn y gwyllt. Ar ôl tair wythnos o'r rhaglen, fe anfonodd hi negeseuon ataf yn dweud, 'Mae'n ddrwg gen i, rydw i'n cael diwrnod gwirioneddol bryderus heddiw. Rwy'n deall os ydych chi am gynnig fy lle ar y cwrs i rywun arall'. Fy ymateb i oedd, 'Na; dy gwrs di yw hwn, ac mae'n rhan o dy raglen; dyma beth rwyt ti'n ei gael allan ohono'. Os mai'r hyn rwyt ti'n gael allan ohono yw dy fod ti'n cymryd rhan, yna mae hynny ynddo'i hun yn achos ddathlu"

Asedau cymunedol

Mae'r prosiect yn cynnig rhaglenni awyr agored chwe wythnos sy'n cynnwys cerdded, garddio a byw yn y gwyllt. Cynigir y rhaglenni mewn partneriaeth â mudiadau cymunedol lleol sy'n cyfeirio pobl at wahanol wasanaethau.

"Rydym yn cynnig rhaglenni ar gyfer y rhai sydd ychydig yn nerfus ynghylch mynd i'r awyr agored a chwrdd â phobl newydd. Maen nhw'n rhaglenni caeedig, yn gyflwyniad ysgafn i fynd allan i'r awyr agored. Unwaith maen nhw wedi cwblhau'r rhaglen chwe wythnos ac maen nhw'n teimlo ychydig yn fwy hyderus, gallan nhw wedyn ddechrau mentro ychydig mwy a chwilio am gyfleoedd eraill gyda mudiadau yn yr ardal"

Effeithiau presgripsiwn cymdeithasol ar anghenion iechyd a llesiant

Mae'r Rheolwr Prosiect Awyr Agored wedi sylwi ar yr effeithiau canlynol ar y rhai sydd wedi defnyddio eu gwasanaethau a'u cymorth. Mae pobl hefyd yn llenwi ffurflenni adborth ar ôl ymgysylltu â'r rhaglen sy'n nodi rhai o'r effeithiau y maent wedi'u cyflawni.

- Mae pobl wedi cynyddu eu lefelau gweithgaredd corfforol trwy ymuno â grwpiau cerdded. Mae rhai pobl wedi ymuno â grwpiau neu wedi sefydlu grwpiau newydd gydag eraill y maent wedi cyfarfod â hwy ar raglenni, gan helpu i wreiddio ac ymestyn yr effeithiau hyn.

"Mae gennym ni grŵp cerdded, ac mae yna un boi nad oedd yn credu y gallai gerdded, gan ei fod dim ond yn cerdded ychydig bach ar y tro. Mae'r ddynes sy'n cynnal y rhaglen hon yn wych, ac mae hi wedi bod yn ei annog trwy fod yn chwareus. Nawr mae'n cerdded milltir neu ddwy bob tro y mae'n mynd allan, ac mae ef a'r ffrindiau y mae wedi cyfarfod â nhw trwy'r rhaglen hon wedi dechrau grŵp cerdded."

- Mae'r rhaglenni wedi helpu i leihau arwahanrwydd cymdeithasol ac wedi cynyddu ymdeimlad o berthyn i lawer o bobl.

"Roedd un person wedi cael profedigaeth; roedd yn teimlo bod mynd allan a chymysgu â phobl eraill wedi eu helpu i deimlo'n llai unig."

- Mae adborth yn dangos bod bron pawb sy'n ymgysylltu â'r rhaglenni yn elwa ar ffurf gwelliannau yn eu hiechyd meddwl a'u llesiant.

"Dydw i ddim yn meddwl bod yna un grŵp sydd ddim wedi cael y rhan fwyaf o'r bobl yn dweud bod eu llesiant meddwl wedi gwella. Mae un ohonyn nhw wedi dweud ei bod hi'n meddwl bod y grŵp wedi achub ei bywyd, a'i bod hi bellach wedi mynd i fyd cerddoriaeth a dawns, ac mae hi'n agos iawn at ei chymuned."

- Mae rhai pobl wedi ennill sgiliau a chymwysterau, ac wedi dod o hyd i swyddi trwy'r rhaglenni. Mae eraill wedi manteisio ar gyfleoedd hyfforddiant a gwirfoddoli.

"Dechreuodd un o'n gwirfoddolwyr ar y rhaglen oherwydd profedigaeth, daeth yn wirfoddolwr, a nawr mae'n aelod o staff. Rydym wedi cynnal rhaglenni fel adeiladu mainc a sgiliau coetir. Mae gennym ni rywun ar hyn o bryd sydd wedi ymuno oherwydd ei llesiant, ond mae hi wedi meithrin cryn lawer o sgiliau erbyn hyn, ac mae hi eisiau dod yn ymarferydd llesiant awyr agored ei hun. Rwy'n meddwl bod y cynlluniau hyn yn ysbrydoli llawer o bobl"

2. Astudiaeth Achos Cynllun Gwobr Gofal Sylfaenol Gwyrddach

DEINTYDDFA FFORDD TALBOT, PORT TALBOT

CREU GOFOD GWYRDD Y TU ALLAN

YR HYN A WNAETHOM

Roedden ni eisiau creu man gwyrdd lle gall ein tîm fynd i ymlacio amser cinio, neu hyd yn oed gamu allan am awyr iach cyflym heb orfod gwisgo mwgwd. Mae ein practis ar stryd drefol, ond er gwaethaf hyn, roeddem yn teimlo bod gennym rywfaint o le i'w ddefnyddio'n well.

Roeddem am ddefnyddio'r ardd gefn wedi ei gwneud o raean, a ddefnyddiwyd gan y perchnogion ar gyfer parcio, i greu gardd i helpu pryfed ac adar i ffynnu ac i'w mwynhau gan staff. Roedd yn rhaid i'r dyluniad ganiatáu lle i barcio dau gar.

SUT Y GWNAETHOM HYN

Ein cam cyntaf oedd adeiladu giât yng nghefn yr eiddo ar gyfer preifatrwydd, i leihau sbwriel o'r lôn rhag chwythu i'r ardd ac i atal cŵn rhag defnyddio'r ardal fel toiled.

Casglwyd rhagor o raean o ardd aelod o staff a oedd hefyd yn adnewyddu ei ardd i gynyddu bywyd gwyllt a bioamrywiaeth gartref. Byddai'r graean fel arall wedi mynd i sgip.

Gosododd un aelod o staff declyn bwydo adar. Yn syth bin, roedd mwy o adar yn ymweld. Yn anffodus, bu'n rhaid i ni dynnu ein teclyn bwydo adar gan fod gwiwerod yn mynd â'r holl fwyd ac yna'n cnoi drwy wifren drydan! Heb adael i hyn effeithio arnon ni, fe wnaethom osod blwch nythu adar a roddwyd i ni. Bellach mae gennym gynlluniau i greu tŷ draenogod a gwesty chwilod.

Cafodd dau hen botyn planhigion a godwyd o'n safle amwynder dinesig lleol eu paentio â phaent wedi'i ailgylchu gan roi rhywfaint o breifatrwydd. Rydym hefyd wedi ailddefnyddio potiau planhigion sydd wedi cael eu rhoi gan y tîm.

Rydym wedi gofyn i ffrindiau a theulu am blanhigion ac wedi tyfu toriadau ein hunain. Rydym wedi ceisio defnyddio planhigion sy'n annog peillwyr. Dechreuodd aelod arall o staff blannu border gyda thair coeden; roedd dwy ohonynt yn rhad ac am ddim gan yr Ymddiriedolaeth Coetiroedd, a phlannwyd llwyni a fydd yn darparu digon o aeron i'r adar a gyda thipyn o lwc rhai eirin i ni!

Rydym wedi dechrau gardd berlysiau mewn cynwysyddion wedi'u hailgylchu, ac mae croeso i'r tîm eu defnyddio fel y mynnent. Mae ein te sy'n cael ei fragu gyda'n dail mintys siocled yn boblogaidd iawn.

Gan fod angen rhywle i eistedd, roeddem yn ddigon ffodus i gael bwrdd a chadeiriau am ddim, a fyddai fel arall wedi mynd i safleoedd tirlenwi. Ar ôl ychydig o ofal ac ymdrech, cawsom ardal hyfryd i'r tîm gymdeithasu.

Rydym wedi gosod ffynnon ddŵr solar sydd hefyd yn cael ei dyblu fel baddon adar, fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod hyn yn ddibynnol iawn ar y tywydd lleol ym Mhort Talbot!

Rydym yn falch iawn o'r hyn rydym wedi'i gyflawni hyd yn hyn ac rydym yn edrych ymlaen at ei weld yn tyfu. Rydyn ni'n dal i ddefnyddio'r ardd bob dydd.

PA WAHANIAETH ALLWN NI EI WNEUD?

Rydym wedi cael ein synnu ar yr ochr orau gan yr effaith y mae'r ardd wedi'i chael nid yn unig ar ein tîm, ond hefyd ar ein cymuned leol. Rydyn ni wedi cael cymdogion nad ydyn ni erioed wedi siarad â nhw yn stopio i sgwrsio.

Roedd y tîm yn werthfawrogol iawn o'r gofod yn ystod yr haf, yn enwedig yn y tywydd poeth. Mae sawl aelod o'r tîm yn gofyn am gyngor garddio a thoriadau fel eu bod yn gallu 'gwyrddhau' eu gofod eu hunain gartref. Mae aelodau'r tîm eisoes yn meddwl yn greadigol am y gofod a'r hyn y gallant ei gyfrannu iddo.

Mae gwylio'r bywyd gwyllt o ffenestri'r practis yn ein helpu ni i gyd i leihau'r straen yn ystod ein dyddiau gwaith prysur. Rydym wedi ein syfrdanu gan faint o fywyd gwyllt fel adar, gwenyn a gloÿnnod byw sy'n ymweld â'n gardd.

CYNGOR

Gwnewch eich bod yn cael cefnogaeth eich tîm gan na allwch chi ei wneud ar eich pen eich hun a does neb eisiau gweld gardd sy'n gwywo ac wedi'i hesgeuluso bob dydd.

Gofynnwch i ffrindiau a theulu am roddion. Byddwch yn greadigol.

Does dim rhaid i chi wario llawer o arian i greu man gwyrdd hyfryd.

RHAGOR O WYBODAETH

Mae rhagor o wybodaeth am yr Ymddiriedolaeth Coetiroedd a choed yn rhad ac am ddim i gymunedau i'w chael yma.

CYSYLLTU

talbotroaddp@live.co.uk

CAMAU GWEITHREDU'R FFRAMWAITH

ADEILADAU AC YSTADAU

Mae'r practis wedi gwneud y gorau o'i ardaloedd allanol a'i fannau gwyrdd ar gyfer bioamrywiaeth ac wedi cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i fywyd gwyllt lleol ffynnu, yn ogystal ag amlygu manteision mannau gwyrdd i iechyd a llesiant.

3. Ffeithlun Rhaglen Hapus – Cefnogi ein Llesiant Meddwl drwy Natur



4. Ffeithlun Asesiad o Effaith Newid Hinsawdd ar Iechyd ar gyfer Natur ac Iechyd a Llesiant

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Gweithio gyda'n gilydd i greu Cymru iachach

Working together for a healthier Wales

© 2025 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
Telerau Defnyddio